| | |
|---|---|
| **Teitl y papur:** | Cynllun Ymgysylltu Tasglu'r Cymoedd |
| **Diben y papur:** | Nodi'r rhaglen o ymgysylltu a gynlluniwyd. |
| **Camau sydd eu hangen:** | Gofynnir i'r Tasglu wneud y canlynol:<br>▪ Nodi'r rhaglen o ymgysylltu sydd ar y gweill.<br>▪ Ystyried sut y dylai'r digwyddiadau hyn gael eu llywio a sut yr hoffech gymryd rhan. Yn benodol, digwyddiadau Cymhorthfa Fusnes Leol a Thrafnidiaeth Cymru, sy'n gynlluniau peilot. Os yw hynny'n llwyddiannus rydym yn gobeithio cynnal mwy o'r digwyddiadau hyn dryw'r hydref mewn lleoliadau eraill ledled y Cymoedd. Byddem yn croesawu eich mewnbwn a'ch cyfranogiad.<br>Caiff rhagor o fanylion eu hamlinellu yn ystod cyfarfod y tasglu, wedi'i ddilyn gan drafodaeth. |
| **Papur a baratowyd gan:** | Lucy Hoddinott, Uwch-reolwr Ymgysylltu, Tîm Tasglu'r Cymoedd. |

**Cynllun Ymgysylltu Tasglu'r Cymoedd**

| Dyddiad | Amser | Gweithgaredd | Ffrwd Waith y Tasglu | Ymwneud Gweinidogol | Lleoliad |
|---|---|---|---|---|---|
| Mehefin 2019 | | | | | |
| 4ydd | Drwy'r Dydd | Cymorthfeydd Cronfa Her yr Economi Sylfaenol<br><br>Cyfarfodydd un i un â phobl sydd wedi mynegi diddordeb mewn gwneud cais i Gronfa Her yr Economi Sylfaenol. Bydd y cyfarfodydd yn galluogi darpar ymgeiswyr i drafod eu syniadau, a'r broses gwneud cais, gyda swyddogion. | Cwmnïau Gwreiddiedig ac Economi Sylfaenol | Nac oes | Swyddfa Llywodraeth Cymru – Parc Busnes Rhydycar, Merthyr Tudful |
| 13eg | 13:30 – 16:30 | Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Economi Sylfaenol<br><br>Gall gwasanaethau cyhoeddus chwarae rôl hanfodol i ddatblygu'r economi sylfaenol, yn enwedig drwy gaffael cyhoeddus. Rydym yn ymwybodol y bydd gan nifer o Fyrddau Gwasanaeth Cyhoeddus ddiddordeb yn yr agweddau ar yr economi sylfaenol, megis gweithio ar lesiant sy'n seiliedig ar leoedd, a'u bod o bosibl yn anelu at amcanion neu'n cymryd camau a allai gael budd o Gronfa Her yr Economi Sylfaenol, Llywodraeth Cymru sydd yn yr arfaeth.<br><br>Mae'r digwyddiad hwn wedi'i anelu at y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus hynny sydd wedi nodi agweddau ar yr economi sylfaenol, wrth baratoi a chyflawni eu hasesiadau a'u cynlluniau llesiant lleol, ac | Cwmnïau Gwreiddiedig ac Economi Sylfaenol | Ydy | Gwesty'r Angel, Caerdydd |

| Dyddiad | Amser | Gweithgaredd | Ffrwd Waith y Tasglu | Ymwneud Gweinidogol | Lleoliad |
|---|---|---|---|---|---|
| | | i'r aelodau hynny o Fyrddau Gwasanaeth Cyhoeddus sydd â diddordeb gweithredol yn yr economi sylfaenol. Mae'n rhan o gyfres o sail thematig a gynlluniwyd er mwyn galluogi Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i weithio gyda'i gilydd ar flaenoriaethau tebyg neu gyffredin – i ddysgu oddi wrth ei gilydd (ac eraill) a helpu i nodi ymyriadau effeithiol ac osgoi dyblygu posibl. | | | |
| 17eg | 11:00-15:00 | Cymhorthfa Fusnes Leol, a gynhaliwyd gan Hefin David AC<br><br>- Bydd hon yn cynnig y cyfle i entrepreneuriaid lleol/perchenogion busnesau bach alw heibio a chwrdd â'u AC lleol i drafod syniadau, cyfleoedd a rhwystrau.<br>- Caiff y diwrnod ei lywio gan gyfres o sgyrsiau a sesiynau Holi ac Ateb gan y canlynol:<br>    ○ Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth<br>    ○ Hefin David AC<br>    ○ Victoria Mann<br>    ○ ICE Cymru<br>- Bydd y digwyddiad ar ffurf Marchnad. Bydd stondinau'n cynnwys Busnes Cymru, Tasglu'r Cymoedd, Cyflymu Cymru i Fusnesau, Ice Cymru, Creu Sbarc ymhlith eraill.<br>- Gwahoddir busnesau lleol i ddarparu coffi/lluniaeth ar gyfer y diwrnod | Cwmnïau Gwreiddiedig ac Economi Sylfaenol | Oes | Think, Create, Motivate – 8 Hanbury Road Bargoed CF81 8QS |

| Dyddiad | Amser | Gweithgaredd | Ffrwd Waith y Tasglu | Ymwneud Gweinidogol | Lleoliad |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| **Gorffennaf 2019** | | | | | |
| 3ydd | 16:00 – 19:30 | Tasglu'r Cymoedd a Thrafnidiaeth Cymru – Digwyddiad cyhoeddus ar y cyd<br><br>Yn ystod ein rownd gyntaf o ymgysylltu y brif broblem a oedd yn cael ei chodi'n gyson oedd Trafnidiaeth.<br><br>Hwn yw'r cyntaf mewn cyfres o ddigwyddiadau a fydd yn cynnig cyfle i bobl leol drafod y canlynol:<br>○ Effaith y Metro<br>○ Sut y gall cymunedau ddefnyddio eu gorsafoedd unwaith y caiff perchenogaeth o'r holl seilwaith ar gyfer llinellau'r Cymoedd ei throsglwyddo i Drafnidiaeth Cymru ar 20 Medi<br>○ Cynlluniau peilot bysiau Tasglu'r Cymoedd a sut y gallent weithio mewn ardaloedd eraill<br>○ Canolfannau trafnidiaeth integredig a'r gwaith o greu lleoedd sy'n cael eu hariannu ar hyn o bryd drwy Dasglu'r Cymoedd.<br>○ Gorsafoedd fel canolfannau cymunedol a'r cyfleoedd i gydweithio mewn gorsafoedd<br><br>Caiff rhagor o ddigwyddiadau eu hamserlennu i'w cynnal yn ystod mis Medi a Hydref ym mhob ardal awdurdod lleol y Cymoedd. | Pob un | Oes | Redhouse Merthyr |